

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen:

Diben y ddogfen hon

Dogfen ddrafft yw hon a ddarperir yn gyfrinachol a hynny dim ond er mwyn gwirio cywirdeb a chyflawnder yr wybodaeth a geir ynddi a cheisio barn ynglŷn â'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

Trin y ddogfen cyn ei chyhoeddi

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint ynddi yn eiddo i Archwilydd Cyffredinol Cymru ac maent yn aros yn eiddo iddo. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gafwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru o dan swyddogaethau statudol i gyflawni swyddogaethau statudol ac at y diben hwnnw yn unig ac fe'i paratowyd fel sail i ddogfen swyddogol y gellir ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth y gallai ei datgelu heb awdurdod fod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel a ganiateir yn benodol gan y gyfraith, ni ellir atgynhyrchu'r ddogfen nac unrhyw gynnwys ynddi, na'u storio mewn system adalw na'u trosglwyddo ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, na'u datgelu wrth unrhyw un ac eithrio'r derbynydd gwreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig Swyddfa Archwilio Cymru ymlaen llaw. Rhaid ei diogelu bob amser i'w hatal rhag cael ei chyhoeddi neu i atal defnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu'i datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod sy'n cynnwys paragraff pwyslais mater ynghylch yr ansicrwydd prisio ar gyfer cronfeydd eiddo'r DU ar eich datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw faterion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni	4
Adroddiad Archwilio Arfaethedig	5
Materion Arwyddocaol	6
Argymhellion	10
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	11
Atodiad 2 – Barn Archwilio Arfaethedig	15
Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed	18
Atodiad 4 – Argymhellion	21

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2019-20 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Delyth Wyn Jones-Thomas (Rheolwr buddsoddi)
- 3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.
- 4 Fe bennon ni lefel o £19,000,000 ar gyfer hyn yn archwiliad eleni.
- 5 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol. Mae'r gwaith canlynol yn dal heb ei gwblhau:
 - a. Cwblhau'r adolygiad digwyddiadau dilynol
 - b. Gweithdrefnau sicrhau ansawdd terfynol
 - c. Derbyn llythyr cynrychiolaeth rheolwyr wedi'i lofnodi
- 6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; bod yn annibynnol arnoch chi; ac, ni pheryglwyd ein gwrthrychedd mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni

- 7 Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n parhau i wneud hynny. Mae'n ofynnol eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae'n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.
- 8 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig Covid-19 ar broses archwilio eleni.

Arddangosyn 1 – effaith Covid-19 ar archwiliad eleni

Amserlen	<ul style="list-style-type: none">• Newidiwyd y terfyn amser ar gyfer cwblhau eich cyfrifon.• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi yn Hydref 2020.
Llofnodion electronig	Gall y corff archwiliedig ac Archwilio Cymru ddefnyddio llofnodion electronig.
Tystiolaeth archwilio	Y flwyddyn yma profwyd profion cyfnodolion a thaliadau budd-dal o bell. Fel arfer, cwblheir hyn yn ystod ymweliad safle gan y tîm archwilio.
Arall	Fe wnaeth heriau eraill a wynebwyd gennym gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• Defnyddiwyd arbenigwyr Eiddo Tiriog i gynorthwyo yn archwiliad y gronfeydd eiddo gan eu bod yn destun i ymwadiad ansicrwydd prisio materol gan y prisiwr;• Derbyn gwybodaeth gadarnhau trydydd parti gan reolwyr buddsoddi yn hwyrach na'r arfer; a• Gofynnwyd am gadarnhad banc yn wahanol yn unol â newidiadau banciau i brosesau oherwydd COVID-19.

- 9 Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig Covid-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

Barn Archwilio Arfaethedig

- 10 Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn archwilio ddiamod** sydd yn cynnwys paragraff pwyslais mater ynghylch ansicrwydd prisio cronfeydd eiddo'r DU ar eich datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 11 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

- 12 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol inni eu cael gennyh chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 13 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

- 14 Nodir isod y camddatganiadau a nodwyd yn y cyfrifon, sy'n parhau i fod heb eu cywiro:

[i] Cydraddoli GMP - Gwnaethwyd addasiadau fel rhan o Brisiad 2019 ac roedd y rhain yn gyfanswm o oddeutu £4m o rwymedigaethau ychwanegol. Mae hyn i ymwneud â 0.2% o gyfanswm y rhwymedigaethau. Nid yw'r amcangyfrif yn berthnasol ac nid yw wedi'i rannu rhwng costiau'r gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y £4m yn yr amserlen camddatganiad nas cywirwyd fel y ddarpariaeth ofynnol 'achos gwaethaf'. Byddem yn disgwyl i swm y gorffennol fod yn llawer is na chyfanswm y ffigwr hwn.

[ii] McCloud - Cadarnhaodd yr actiwari bod addasiad McCloud a gynhwyswyd yn adroddiad IAS26 eleni yn 0.5% o'r atebolrwydd gweithredol. Byddai swm o 0.5% o'r atebolrwydd (£ 1,925m) yn £ 9.625m yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2019. . Nid yw'r amcangyfrif yn berthnasol ac nid yw wedi'i rannu rhwng costiau'r gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y £9.625m yn yr amserlen camddatganiad nas cywirwyd fel y ddarpariaeth ofynnol 'achos gwaethaf'. Byddem yn disgwyl i swm y gorffennol fod yn llawer is na chyfanswm y ffigwr hwn.

[iii] Goodwin - Mae'r actiwari wedi cadarnhau bod hyn yn y camau cynnar ond ei ddealltwriaeth gychwynnol yw ei fod dim ond yn effeithio ar gyfran fach iawn o aelodau'r Gronfa. Mae dyfyniadau mewn papurau allanol yn awgrymu effeithiau awgrymedig o c0.1-0.2% o gyfanswm yr atebolrwyddau. Byddai swm o 0.2% o'r atebolrwydd yn £3.85m yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2019. Cyfanswm yw hwn ac nid yw'n seiliedig ar rannu rhwng y gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y £9.625m yn yr amserlen camddatganiad nas cywirwyd fel y ddarpariaeth ofynnol 'achos gwaethaf'. Byddem yn disgwyl i swm y gorffennol fod yn llawer is na chyfanswm y ffigwr hwn.

Nodir crynodeb o gamddatganiadau nas cywirwyd yn **Atodiad 3**.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 15 Gwnaethwyd cywiriadau i ychwanegu datgeliadau ansicrwydd amcangyfrif ynghylch a'r cronfeydd eiddo o ganlyniad i COVID-19 ac mae'r holl gronfeydd eiddo wedi'u hailddosbarthu i asedau Lefel 3 oherwydd cyfyngiadau adbrynu.

Nodir crynodeb o gamddatganiadau a gywirwyd yn **Atodiad 3**.

Risg arwyddocaol ac ardaloedd eraill sy'n derbyn sylw archwilio

Risg archwilio ariannol	Ymateb archwilio arfaethedig
Risg arwyddocaol	
<p>Rheolwyr yn Anwybyddu Rheolaethau.</p> <p>Mae risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau yn bresennol ym mhob endid. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].</p>	<p>Cynhaliodd fy nhîm archwilio y profion canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r risg sylweddol sy'n gysylltiedig â Rheolwyr yn Anwybyddu Rheolaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> gan ddefnyddio dull gwell o ddadansoddi data i ddadansoddi holl gofnodion dyddlyfrau i weld a oedd unrhyw nodweddion o ddiddordeb ac wedyn cynnal profion sylweddol i brofi priodoldeb y dyddlyfrau a nodwyd; adolygu'r gwaith o gynllunio a gweithredu rheolaethau dros gofnodion dyddlyfrau i'r cyfriflyfr ariannol ac amcangyfrifon cyfrifyddu; adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodion sylweddol nad oes a wnelont â busnes arferol gan gynnwys rhai â phartion cysylltiedig. <p>Ni nodwyd unrhyw faterion ac eithrio'r sylw rheolaeth ynghylch y ffaith nad oedd cofnodion dyddlyfrau wedi'u hadolygu.</p>
Meysydd eraill sy'n derbyn sylw archwilio	
<p>Prisio buddsoddiadau</p> <p>Mae prisio buddsoddiadau yn ardal o ffocws oherwydd effaith COVID-19 ar ddyddiad y fantolen.</p>	<p>Cynhaliodd fy nhîm archwilio y profion canlynol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd eraill o sylw archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> adolygwyd dyluniad a gweithrediad rheolaethau allweddol dros brisio

Meysydd eraill sy'n derbyn sylw archwilio

buddsoddiadau trwy gael adroddiadau rheoliaethau mewnol y rheolwr buddsoddi (lle'n berthnasol) a gwerthuso'r goblygiadau i'n harchwiliad o unrhyw eithriadau a nodwyd;

- cytunwyd y prisiadau diwedd blwyddyn fel yr adroddir yn y datganiadau ariannol i adroddiadau a dderbynnwyd yn uniongyrchol o'r rheolwyr buddsoddi;
- perfformwyd profion prisio annibynnol ar gyfer sampl o ddaliadau diwedd blwyddyn gan ddefnyddio gweithdrefnau megis treiglo ymlaen y prisiad o'r datganiadau ariannol archwiliedig diweddaraf y Gronfa i ddyddiad y fantolen gan ddefnyddio meincnod priodol;
- cyflogwyd arbenigwyr Eiddo Tiriog i gynorthwyo gyda archwilio'r cronfeydd eiddo; a
- sicrhawyd bod addasiadau prisiau hen priodol wedi cael eu postio i'r datganiad ariannol.

Rydym wedi cadarnhau bod yr holl brisiadau fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020 ac nid oes unrhyw bryderon prisio hen.

Mae cronfeydd eiddo'r DU ar 31 Mawrth 2020 yn £ 191m, sy'n cynrychioli 10% o gyfanswm yr asedau. Mae'r datganiadau prisio yn cynnwys datganiad bod ansicrwydd prisio perthnasol yn gysylltiedig â chronfa eiddo'r DU. Yn unol â chanllawiau Archwilio Cymru, bydd paragraff pwyslais mater yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad archwilio gan fod y cronfeydd eiddo yn berthnasol.

Meysydd eraill sy'n derbyn sylw archwilio

Gwnaethwyd cywiriadau i ychwanegu datgeliadau ansicrwydd amcangyfrif ynghylch a'r cronfeydd eiddo o ganlyniad i COVID-19 ac mae'r holl gronfeydd eiddo wedi'u hailddosbarthu i asedau Lefel 3 oherwydd cyfyngiadau adbrynu.

Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd trosglwyddiadau pellach i Pwl buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) yw'r awdurdod lletya ar gyfer cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Trosglwyddodd Cronfa Bensiwn Gwynedd (CBG) (a weinyddir gan Gyngor Sir Gwynedd) arian i Gyfleoedd Byd-eang ac is-gronfeydd Twf Byd-eang PPC ym mis Ionawr 2019. Mae'r tîm archwilio sydd wedi'i leoli yn CSC wedi rhoi sicrwydd archwilio i'r timau archwilio yn y cronfeydd pensiwn eraill yng Nghymru. Maent wedi gwneud y canlynol:

- cael ac adolygu'r adroddiadau sicrwydd rheolaeth ar gyfer gweithredwr y cronfeydd, rheolwyr cronfeydd perthnasol a cheidwad y cronfeydd ac wedi dod i gasgliadau yn eu cylch;
- cadarnhau'r balansau diwedd blwyddyn ym mhob is-gronfa ecwiti; ac
- adolygu nodyn datgelu'r pwyllgor a roddwyd i bob corff gweinyddu unigol yn ogystal â chadarnhau bod y nodyn datgelu yn gyson â datganiadau ariannol y Pwyllgor ar gyfer 2019-20.

Ni nodwyd unrhyw faterion o ran y profion a gynhaliwyd arnynt.

Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

16 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi, gan gynnwys:

- Pryderon ynghylch yr agweddau ansoddol ar arferion cyfrifyddu ac adrodd ariannol.
- Unrhyw anawsterau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.
- Materion arwyddocaol a drafodwyd ac y gohebwyd yn eu cylch gyda'r rheolwyr y mae angen inni roi gwybod amdanynt i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, e.e. amodau busnes a oedd yn effeithio ar yr endid, risgiau arwyddocaol, trafodion anarferol, ffactorau a oedd yn effeithio ar werthoedd cario asedau a rhwymedigaeth, achosion o gywiro'r camdatganiadau mewn modd detholus,

pryderon ynghylch rheolwyr yn cysylltu â chyfrifwyr eraill neu drydydd partïon ynghylch materion cyfrifyddu neu archwilio.

- Unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r drosolwg ar y broses adrodd ariannol y mae angen inni roi gwybod amdanynt, e.e. camddatganiadau perthnasol, anghysonderau adrodd a.y.b.
- Unrhyw wendidau perthnasol a ganfuwyd mewn rheolaethau mewnol nad ydym wedi rhoi gwybod ichi amdanynt yn barod
- Unrhyw faterion eraill y mae safonau archwilio'n ei gwneud yn ofynnol eu cyfleu i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, e.e. materion sy'n ymwneud â thwyll, cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, archwiliad o'r grŵp, peidio â datgelu gwybodaeth megis partïon cysylltiedig neu drafodion partïon cysylltiedig, busnes gweithredol, digwyddiadau dilynol a.y.b.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn y flwyddyn yma.

Argymhellion

- 17 Caiff yr argymhellion sy'n codi o'n harchwiliad eu nodi yn **Atodiad 4**. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol i ganfod pa gynnydd a wnaed gyda hwy yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Lle mae unrhyw gamau gweithredu heb eu cymryd, byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd ac yn adrodd wrthyhych am hynny yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

CAERDYDD

CF11 9LJ

[Dyddiad]

Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2020

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol. Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019/20; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.
- Cadarnhau fod y Gronfa yn Gronfa Bensiwn Gofrestredig. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw reswm pam y dylai statws treth y Gronfa newid.
- Nid ydym wedi llunio unrhyw adroddiadau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw adroddiadau o'r fath wedi'u llunio gan unrhyw un o'n cynghorwyr. Cadarnhau nad ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfraniadau hwyr nac unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio â'r atodlen talu/atodlen cyfraniadau sydd wedi codi nad oedd angen cyflwyno adroddiad arnynt. Cadarnhau hefyd nad ydym yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill sydd wedi codi y byddai angen cyflwyno adroddiad arnynt i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

- Rydym wedi tynnu eich sylw at yr holl ohebiaeth a nodiadau o gyfarfodydd â rheoleiddwyr.
- Cadarnhawn nad oes unrhyw berson sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Gronfa yn gysylltiedig â Swyddfa Archwilio Cymru, nac yn aelod cyswllt ohoni, a fyddai'n golygu bod Swyddfa Archwilio Cymru yn anghymwys i weithredu fel archwilydd y Gronfa.
- Ni fu unrhyw newidiadau i reolau'r Gronfa yn ystod y flwyddyn a hyd at y dyddiad presennol.

Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
 - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cronfa Bensiwn Gwynedd ac yn ymwneud â:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

- Mae'r wybodaeth am Aelodau a geir yn yr adroddiad blynyddol yn gywir ac mae'n rhoi darlun gwir a theg am nifer yr aelodau sydd yn y Gronfa Bensiwn.

Sylwadau ar y datganiadau ariannol

- Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.
- Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.
- Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partion cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.
- Mae'r holl ddigwyddiadau sy'n digwydd ar ôl y dyddiad adrodd sydd angen eu haddasu neu eu datgelu wedi cael eu haddasu neu eu datgelu, gan gynnwys datgelu'r effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar ddatganiadau ariannol y Gronfa.
- Yr holl ymgyfreitha gwirioneddol neu bosibl a hysbysir y dylai ei effeithiau gael eu hystyried wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi'u datgelu i'r archwilydd a'u cyfrifo a'u datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.
- Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywir a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyfan, i'r datganiadau ariannol a gymerwyd yn ei gyfanrwydd. Mae crynodeb o'r eitemau hyn wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.
- Rydym yn cadarnhau bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol ac yn datgelu yn unol â'r Cod yr holl faterion yr ydym yn ymwybodol ohonynt sy'n berthnasol i allu'r Gronfa i barhau fel busnes gweithredol, gan gynnwys y prif amodau neu ddigwyddiadau a'n cynlluniau. Nid ydym yn bwriadu dirwyn y Gronfa i ben. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau neu amodau a allai daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Gronfa i barhau fel busnes gweithredol. Rydym yn cadarnhau cyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir ynghylch digwyddiadau ac amodau sy'n ymwneud â busnes gweithredol ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, gan gynnwys ein cynlluniau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.
- Rydym yn cadarnhau:
 - (i) ein bod o'r farn bod gan y Gronfa brosesau priodol i atal a nodi unrhyw doriadau seibr heblaw'r rhai sy'n amlwg yn amherthnasol; ac
 - (ii) ein bod wedi datgelu i chi yr holl doriadau seibr yr ydym yn ymwybodol ohonynt sydd wedi arwain at fwy na mynediad anawdurdodedig

amherthnasol i ddata, cymwysiaid, gwasanaethau, rhwydweithiau a / neu ddyfeisiau.

- Rydym yn cydnabod bod 'cydraddoli GMP', 'McCloud', 'Goodwin' a 'cronfeydd eiddo'r DU' yn faterion generig a godwyd gan archwilwyr mewn perthynas a holl ddatganiadau ariannol holl gronfeydd CPLIL ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020, ac nad ydynt yn unigryw i Gronfa Bensiwn Gwynedd.
- Ni ddisgwylir i Werth Asedau Net (NAV) cael ei effeithio'n andwyol pan godir atal y NAV a dechrau masnachu ym mis Hydref ar gyfer rhai cronfeydd.

Sylwadau gan Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Gwynedd

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am sicrhau bod y Gronfa'n cadw cofnodion cyfrifyddu digonol.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Gwynedd ar [dyddiad].

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd er mwyn gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu ei bod wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dafydd L Edwards

Pennaeth Cyllid

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Llofnodwyd gan:

Cyngorydd John Brynmor Hughes

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

Cyngor Gwynedd

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad yr archwilydd annibynnol o Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Gronfa Bensiwn Gwynedd

Adroddiad ar archwiliad y datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol a nodiadau cysylltiedig Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2020 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Pwyslais mater – Cronfeydd eiddo'r DU

Tynnaf sylw at Nodyn 4 at y datganiadau ariannol sy'n disgrifio ansicrwydd perthnasol ynglŷn â phrisio cronfeydd eiddo'r DU. Nid yw fy marn wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwm i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Adrodd ar ofynion eraill

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; ac
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol [wedi'i nodi ar dudalennau ... i ...], mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r gronfa bensiwn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. . Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau

Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett

24 Heol y Gadeirlan

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Caerdydd

[Dyddiad]

CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o Camddatganiadau nas cywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad fe ganfuom y camddatganiadau canlynol sydd heb eu cywiro gan reolwyr.

Arddangosyn 3a: crynodeb o gamddatganiadau nas cywirwyd

Gwerth y camddatganiad	Natur y camddatganiad	Rheswm am beidio cywiro
Pensiynau Debyd a thalwyd £4m Croniadau Credyd £4m	Cydraddoli GMP - Gwnaethwyd addasiadau fel rhan o Brisiad 2019 ac roedd y rhain yn gyfanswm o oddeutu £4m o rwymedigaethau ychwanegol. Mae hyn i ymwneud â 0.2% o gyfanswm y rhwymedigaethau. Nid yw'r amcangyfrif yn berthnasol ac nid yw wedi'i rannu rhwng costiau'r gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y £4m yn yr amserlen camddatganiad nas cywirwyd fel y ddarpariaeth ofynnol 'achos gwaethaf'. Byddem yn disgwyl i swm y gorffennol fod yn llawer is na chyfanswm y ffigwr hwn.	Ddim yn berthnasol
Pensiynau Debyd a thalwyd £9.625m Croniadau Credyd £9.625m	McCloud - Cadarnhaodd yr actiwari bod addasiad McCloud a gynhwyswyd yn adroddiad IAS26 eleni yn 0.5% o'r atebolrwyd	Ddim yn berthnasol

	<p>gweithredol. Byddai swm o 0.5% o'r atebolwydd (£ 1,925m) yn £ 9.625m yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2019. . Nid yw'r amcangyfrif yn berthnasol ac nid yw wedi'i rannu rhwng costiau'r gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y £9.625m yn yr amserlen camddatganiad nas cywirwyd fel y ddarpariaeth ofynnol 'achos gwaethaf'. Byddem yn disgwyl i swm y gorffennol fod yn llawer is na chyfanswm y ffigur hwn.</p>	
<p>Pensiynau Debyd a thalwyd £3.85m Croniadau Credyd £3.85m</p>	<p>Goodwin - Mae'r actiwari wedi cadarnhau bod hyn yn y camau cynnar ond ei ddealltwriaeth gychwynnol yw ei fod dim ond yn effeithio ar gyfran fach iawn o aelodau'r Gronfa. Mae dyfyniadau mewn papurau allanol yn awgrymu effeithiau awgrymedig o c0.1-0.2% o gyfanswm yr atebolwyddau. Byddai swm o 0.2% o'r atebolwydd yn £3.85m yn seiliedig ar brisiad 31 Mawrth 2019. Cyfanswm yw hwn ac nid yw'n seiliedig ar rannu rhwng y gorffennol a'r dyfodol. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys y £9.625m yn yr amserlen camddatganiad nas cywirwyd fel y</p>	<p>Ddim yn berthnasol</p>

	ddarpariaeth ofynnol 'achos gwaethaf'. Byddem yn disgwyl i swm y gorffennol fod yn llawer is na chyfanswm y ffigwr hwn.	
	Ni wnaeth ddatgeliad yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â Goodwin.	
Cyfanswm: Pensiynau Debyd a thalwyd £ 17.475m Croniadau Credyd £ 17.475m		

Crynodeb o'r Cywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad fe ganfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan reolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

Gwnaethwyd cywiriadau i ychwanegu datgeliadau ansicrwydd amcangyfrif ynghylch a'r cronfeydd eiddo o ganlyniad i COVID-19 ac mae'r holl gronfeydd eiddo wedi'u hailddosbarthu i asedau Lefel 3 oherwydd cyfyngiadau adbrynu.

Atodiad 4

Argymhellion

Rydym yn nodi'r holl argymhellion sy'n codi o'n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy'n dal heb gael sylw yn adroddiad archwilio'r flwyddyn nesaf:

Arddangosyn 4

Mater yn codi 1 – Awdurdodi cyfnodolyn

Canfyddiadau	Gwnaethom nodi nad yw cyfnodolion yn cael eu hadolygu gan aelod uwch o'r tîm cyn cael eu postio.
Blaenoriaeth	Canolig
Argymhelliad	Dylai pob cyfnodolyn gael ei adolygu'n annibynnol cyn ei bostio.
Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith	Sicrhau llywodraethu priodol dros bostio cyfnodolion cywir a dilys.
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Bydd proses yn cael ei chyflwyno i wella awdurdodiad cyfnodolion sy'n cael eu postio
Dyddiad rhoi ar waith	Mawrth 2021

Mater yn codi 2 - Dal Buddsoddiadau ar Werth y Farchnad yn y Balans Treial

Canfyddiadau	Cofnodir buddsoddiadau ar gost y balans treial. Cofnodir y gwerth teg mewn taenlen Excel i lunio'r datganiadau ariannol.
Blaenoriaeth	Isel
Argymhelliad	Argymhellir bod y Gronfa yn dal ei buddsoddiadau ar Werth Teg yn y cyfriflyfr, yn hytrach nag ar gost llyfr.
Manteision rhoi'r argymhelliad ar waith	Byddai cofnodi buddsoddiadau ar werth teg yn y cyfriflyfr yn dileu'r ddibyniaeth ar daenlen Excel cymhleth sy'n cysoni'r buddsoddiadau rhwng gwerth teg a gwerth llyfr ar gyfer paratoi'r cyfrifon diwedd blwyddyn.
Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Byddwn yn edrych ar y posibilrwydd o gofnodi gwerth teg y buddsoddiadau ar y cyfriflyfr
Dyddiad rhoi ar waith	Mawrth 2021

Gwaith dilynol ar yr argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol blaenorol

Cysoni cyfraniadau misol

Canfyddiadau	Yn ystod ein hadolygiad o'r rheolaethau sy'n ymwneud â chywirdeb a chyflawnder data cyfraniadau a geir gan Gyflogwyr y Gronfa, nodwyd
---------------------	---

Cysoni cyfraniadau misol

	<p>gennym, er bod y cyfraniadau a geir yn cael eu hailgyfrifo bob mis, fod y rhain yn seiliedig ar ffurflen cyfraniadau misol a gwblheir gan y cyflogwr yn unig, nad yw'n cael ei gwirio yn erbyn unrhyw ddata sylfaenol ar hyn o bryd. Nid yw'r Gronfa yn rhoi unrhyw sicrwydd bod y ffigurau yn y ffurflenni hyn yn gywir nac yn gyflawn.</p> <p>Er mai'r Cyflogwr sy'n gyfrifol am hyn, dylai'r Gronfa allu cael mwy o sicrwydd ynglŷn â chywirdeb a chyflawnder cyfraniadau. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl gwybod faint o aelodau y mae'n ymwneud â nhw, unrhyw newidiadau ac ati.</p>
Argymhelliad	<p>Pan wnaethom ymholiadau cadarnhawyd bod rheolwyr yr awdurdod sy'n gweinyddu'r gronfa wedi cyflwyno 'rhestr wirio cydymffurfiaeth', y maent yn gofyn i swyddogion cyllid statudol cyflogwyr, neu swyddogion cyfatebol, ei llofnodi, gan gadarnhau bod gwahanol brosesau a gwiriadau wedi'u cynnal (bod cyfraniadau yn unol â bandiau %, dechreuwyr, ymadawyr, manylion cyflog cywir ac ati) a bod gwybodaeth a chyfraniadau a drosglwyddwyd i'r gronfa yn gywir ac yn unol â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd ychwanegol, er nad yw'n rhoi mynediad i'r Gronfa at y data manwl o hyd. Argymhellwn y dylid defnyddio'r rhestr wirio ym mhob achos yn y dyfodol ac, os oes modd, y dylid cynnal gwiriadau pellach er mwyn sicrhau bod data sylfaenol yn gyflawn ac yn gywir. Rydym ar ddeall bod y rheolwyr yn gwneud y rhestr wirio yn orfodol o'r flwyddyn nesaf ymlaen, os nad yw cywirdeb data yn cael ei ategu gan ryngwynebaw 'i-Connect' ar-lein.</p>
Ymateb y rheolwyr	<p>Mae pob cyflogwr bellach ar y system 'iConnect' ac mae'r tîm cyrifon bellach yn cysoni'r wybodaeth a dderbynnir gan y cyflogwyr i'r wybodaeth o iConnect.</p>
Statws	Caewyd

Nifer yr aelodau	
Canfyddiadau	<p>Nodwyd gennym na allai Rheolwr y Gronfa Bensiwn ddarparu cysoniad o ran nifer yr aelodau rhwng 2016-17 a 2017-18.</p> <p>Dylai'r cysoniad ddangos symudiadau aelodau yn y flwyddyn ariannol a newidiadau ôl-weithredol a ddiwygiodd unrhyw ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Byddai'r cysoniad hwn yn ein galluogi i archwilio'r symudiadau o ran nifer yr aelodau, nad ydym wedi gallu ei wneud.</p>
Argymhelliad	<p>a) Argymhellir y dylai Rheolwr y Gronfa Bensiwn ddatblygu adroddiad Altair a all gyfrif cyfanswm y newidiadau ôl-weithredol i ddata aelodau a nodi newidiadau unigol.</p> <p>b) Argymhellir hefyd y dylai Rheolwr y Gronfa Bensiwn gynnal proses gysoni rhwng nifer yr aelodau a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol a nifer ddiwygiedig yr aelodau.</p>
Ymateb y rheolwyr	<p>a) Mae hyn yn ddyheadol ac yn gofyn am ddatblygiadau meddalwedd trydydd parti hyd yn oed os oes modd ei gyflawni maes o law.</p> <p>b) Gwnaed hyn ar gyfer prisiaid 2019 ac rydym hefyd yn bwriadu cynnal yr ymarfer hwn yn flynyddol o 2020/21.</p>
Statws	<p>a) Agored</p> <p>b) Caewyd</p>

Ni chaiff Cyfrifon Crog eu Cysoni'n Ffurfiol

Canfyddiadau	Nodwyd nad yw'r cyfrifon crog yn cael eu cysoni'n ffurfiol bob mis ar hyn o bryd.
Argymhelliad	Argymhellir y dylid cysoni ac adolygu cyfrifon crog y Gronfa bob mis.
Ymateb y rheolwyr	Cafwyd y cyfrifon crog eu cysoni'n rheolaidd yn ystod 2019/20.
Statws	Caewyd

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

We welcome correspondence and
telephone calls in Welsh and English. Rydym



yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn
Gymraeg a Saesneg.